

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	23.12.22
Pwnc / Subject:	Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym yn croesawu'r trefniadau asesu hyn ac yn teimlo y byddant yn cynorthwyo ymarferwyr i ddeall cynnydd yn nysgu plant.

Teimlwn eu bod yn ei gwneud yn glir sut dylent gael eu defnyddio gan ymarferwyr yn unigol, a datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd.

Drwyddi draw, teimlwn ei bod yn bwysig i'r cysylltiad rhwng y trefniadau hyn a'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir fod yn glir. Rydym wedi gwneud ychydig o awgrymiadau ble gellid cryfhau hyn.

Rydym yn cefnogi'r farn na ddylid defnyddio'r trefniadau fel dull rhestr dicio ac wedi awgrymu sut i liniaru yn erbyn hyn. Hefyd, rydym wedi cynnwys awgrymiadau ynglŷn â ble y gellir defnyddio dysgu proffesiynol i gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio'r trefniadau'n effeithiol.

Byddem yn hapus i drafod yr awgrymiadau hyn ymhellach gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1

- i) Ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir?

Ydw	✓	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------

- ii) Os ydw, ym mha fath o leoliad / sefydliad ydych chi'n gweithio? (Os na, parhewch i (iv) isod.)

Meithrinfa ddydd breifat	<input type="checkbox"/>	Sefydliad ymbarél	<input type="checkbox"/>
Cylch chwarae	<input type="checkbox"/>	Trydydd sector	<input type="checkbox"/>
Lleoliad cyn-ysgol	<input type="checkbox"/>	Darparwr hyfforddiant	<input type="checkbox"/>
Cylch Meithrin	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>	Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaethau)	✓
Consortium rhanbarthol	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch)	<input type="checkbox"/>

iii) Beth yw eich prif rôl?

Arweinydd	<input type="checkbox"/>	Swyddog datblygu	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr	<input type="checkbox"/>	Datblygiad polisi	<input type="checkbox"/>
Athro ymgynghorol y blynyddoedd cynnar (neu gyfwerth)	<input type="checkbox"/>	Aelod o bwyllgor rheoli	<input type="checkbox"/>
Arolygydd	<input checked="" type="checkbox"/>	Gwirfoddolwr	<input type="checkbox"/>
Ymgynghorydd	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch)	<input type="checkbox"/>

iv) Os nad ydych yn gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir, ym mha rinwedd hoffech chi roi adborth?

Gwarchodwr plant	<input type="checkbox"/>	Plentyn neu berson ifanc (o dan 18)	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir	<input type="checkbox"/>	Myfyriwr / academydd	<input type="checkbox"/>
Rhiant / gofalwr	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch)	<input type="checkbox"/>
Oedolyn dros 18 oed (nid rhiant na gofalwr)	<input type="checkbox"/>		

v) Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

Os 'ydw', nodwch.

Estyn

Cwestiwn 2 – Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori 'Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir'?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

Os ydych chi wedi dewis 'Nac ydw', rydym yn argymhell y dylech ddarllen y ddogfen cyn parhau â'r holiadur.

Cwestiwn 3

- i) Ydych chi'n ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer trefniadau asesu mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Ydw	✓	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
-----	---	---------	--------------------------

- ii) I ba raddau fydd y trefniadau asesu hyn yn cynorthwyo ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i gynnal asesiadau o gynnydd plant mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Anghefnogol	Cefnogol	Ansicr
<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r trefniadau asesu'n amlinellu'n glir beth yw'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, ac yn esbonio eu dyletswydd gyfreithiol. Maent yn esbonio sut mae cynllunio yn cysylltu â chynnydd, a sut mae trefniadau asesu yn cysylltu â'r llwybrau datblygiadol. Mae'n glir ar y cyfan sut mae'r trefniadau hyn yn rhan o'r cwricwlwm, ac nid yn ychwanegiad ato.

- Cwestiwn 4** – Pa mor glir yw hi y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r trefniadau hyn i gefnogi eu hasesiadau wrth gynllunio ar gyfer cynnydd?

Aneglur	Clir	Ansicr
<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

At ei gilydd, mae hyn yn glir, ond gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys yn y frawddeg gyntaf ynghylch

4. Cynnydd bod

'Cefnogi plant i wneud cynnydd wrth wraidd y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir' **a bod y trefniadau asesu hyn wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio fel rhan o'r cwricwlwm wrth gynllunio ar gyfer cynnydd.**

Byddai hyn yn pwysleisio bod y trefniadau hyn yn rhan o'r cwricwlwm, ac nid yn ychwanegiad ato.

Cwestiwn 5

- i) A yw'n glir sut y dylid cymhwyso egwyddorion cynnydd wrth wneud penderfyniadau am ddysgu a datblygiad plant?

Ydy	✓	Nac ydy	<input type="checkbox"/>
-----	---	---------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

Mae'r adran hon yn cael ei hesbonio'n dda ac yn rhoi digon o fanylion i'w gwneud yn glir sut i ddefnyddio egwyddorion cynnydd ochr yn ochr â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

- ii) Pa mor ddefnyddiol yw'r tabl sy'n dangos sut y gellir cymhwyso egwyddorion cynnydd i gefnogi asesu dysgu a chynnydd plant iau?

Ddim yn ddefnyddiol	Defnyddiol	Ansicr
<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r enghreifftiau o 'sut beth yw hyn i blant 3 a 4 oed' yn hynod ddefnyddiol a cheir cysylltiad clir rhwng y rhain ac egwyddorion cynnydd.

- iii) Beth yn ychwanegol, os unrhyw beth o gwbl, yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn y tabl?

--

Cwestiwn 6 – Pa mor ddefnyddiol fydd y trefniadau asesu i ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd (amlinellir yn adran 4.3 y ddogfen ymgynghori)?

Ddim yn ddefnyddiol	<input type="checkbox"/>	Defnyddiol	<input checked="" type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
---------------------	--------------------------	------------	-------------------------------------	--------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

Mae'r adran hon yn ddefnyddiol gan ei bod yn amlinellu'r disgwyliad y bydd ymarferwyr yn gweithio gyda phobl eraill o fewn eu lleoliad, a'r tu allan, i ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd. Croesewir y ffocws ar ystyried barn rhieni, ac mae'n ystyried eu rôl bwysig yn natblygiad eu plentyn. Amlygir pwysigrwydd deialog broffesiynol gydag ysgolion hefyd, a chroesewir hyn. Mae'n amlinellu'r disgwyliad y bydd hyn yn digwydd i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu i lawer o ysgolion a lleoliadau.

Cwestiwn 7

- i) A yw'n glir fod asesu cychwynnol (adran 7) a pharhaus (adran 5.1) yr un mor bwysig i gynnydd plant?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r frawddeg gyntaf yn adrannau 5 a 7 yn allweddol i hyn, 'Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn ein hatgoffa y dylai asesu fod yn fwy nag ymarfer rhestr dicio neu ddigwyddiad untro, ac y dylai fod yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu' ac 'Mae trefniadau asesu cychwynnol yn gam cyntaf pwysig yn y broses asesu barhaus'.

Maent yn amlygu bod asesu yn broses barhaus ac mae'r ddogfen gyfan yn amlinellu diben asesu'n glir ac yn ei gysylltu'n dda ag egwyddorion cynnydd.

- ii) Pa derminoleg sydd fwyaf defnyddiol, yn eich barn chi, ar gyfer disgrifio'r asesiadau y mae'n rhaid eu cynnal o fewn 6 wythnos i blentyn yn derbyn addysg feithrin a ariennir?

Cychwynnol	Wrth ddechrau
✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r ddogfen yn datgan bod asesiad cychwynnol yn cael ei gynnal dros y chwe wythnos gyntaf wedi i blentyn ddechrau mewn addysg. O hyn, rydym yn tybio na fydd angen asesiad cychwynnol os yw plentyn yn ymuno â lleoliad newydd yn ddiweddarach, a bydd ei asesiad cychwynnol yn cael ei rannu â'r lleoliad newydd yn lle. Gall ymarferwyr yn y lleoliad newydd gynnal eu hasesiad eu hunain i adeiladu ar yr asesiad cychwynnol. O'r herwydd, mae'n ymddangos yn fwy defnyddiol disgrifio'r asesiad fel asesiad cychwynnol yn hytrach nag asesiad wrth ddechrau.

Cwestiwn 8 – A yw diben yr asesu parhaus (adran 5.1) yn cael ei esbonio'n glir?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r adran hon, fel rhan o adran 5 yn ei chyfanrwydd, yn gwneud diben asesu parhaus yn glir. Mae hefyd yn amlinellu'n ddefnyddiol beth ddylai ffurf asesu fod, a sut dylid defnyddio'r wybodaeth.

Cwestiwn 9 – A yw rôl arsylwi mewn asesu yn cael ei hesbonio'n glir?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r adran yn darparu gwybodaeth ddigonol a defnyddiol i dywys yr ymarferwr. Mae'n cysylltu'n dda â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, ac yn gwneud cyfeiriad addas ato. Hefyd, mae'n codi ymwybyddiaeth yn fuddiol am ragfarn ddjarwybod. Nid yw'r adran gryno, am sut beth ddylai ac na ddylai asesu arsylwadol fod, yn ddefnyddiol iawn i ymarferwyr.

Cwestiwn 10

- i) A yw diben yr asesiad cychwynnol yn cael ei esbonio'n glir?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Mae'r adran hon yn rhoi manylion penodol am y broses sy'n glir a diamwys a bydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr.

- ii) I ba raddau y mae'r disgrifiadau yn adran asesiad cychwynnoly trefniadau yn fuddiol wrth gynorthwyo ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn gwneud cynnydd?

Ddim yn fuddiol	Buddiol	Buddiol iawn
<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

At ei gilydd, teimlwn fod yr adran hon yn fuddiol, ond gellid ei chryfhau trwy gynnwys testun ar ddechrau'r adran hon i esbonio na fydd pob plentyn wedi cyrraedd y cam a ddisgrifir fel 'yn gychwynnol' o reidrwydd, ac efallai bydd rhai ohonynt eisoes wedi symud ymlaen y tu hwnt i'r cam hwn ar gyfer rhai agweddau.

Mae'r ffordd y rhannwyd y medrau yn feysydd i'w hystyried yn ddefnyddiol i ymarferwyr, ond gallai fod perygl i hyn ddod yn rhestr dicio. Byddai'n fuddiol annog ymarferwyr i beidio ag edrych ar yr asesiad cychwynnol hwn fel rhestr o feini prawf y mae'n rhaid iddynt asesu yn ei herbyn, ond defnyddio'r agweddau yn fwy cyfannol yn lle i nodi cryfderau plant, a'u meysydd i'w datblygu. Os bydd ymarferwyr yn nodi pryderon datblygiadol posibl, gallai fod yn fuddiol cynnwys arwyddion ar gyfer y camau nesaf iddynt eu cymryd.

- iii) Pa wybodaeth ychwanegol, os o gwbl, yr hoffech ei gweld yn cael ei chynnwys fel rhan o'r disgrifiadau hyn?

Fel yr uchod

- iv) A yw gosodiad y disgrifiadau yn cynorthwyo ymarferwyr i lunio barnau am gynnydd plant unigol?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Ydyn, maen nhw, ond mae risgiau i'r ymagwedd hon, fel yr amlinellir uchod.

Cwestiwn 11 – Beth arall sydd ei angen i gefnogi'r defnydd o'r trefniadau asesu yn ymarferol?

Gweler yr ymateb i 10(ii)

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n gallu gweld y bydd y trefniadau asesu hyn yn cefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws y llwybrau datblygiadol yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Ydw	Nac ydw	Ansicr
✓	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb.

Dylai'r trefniadau hyn gefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws y llwybrau datblygiadol ar yr amod fod ymarferwyr yn eu gweld fel rhan o addysgu a dysgu, ac nid fel ychwanegiad at y cwricwlwm. Yn gyffredinol, caiff hyn ei wneud yn glir trwy gydol y ddogfen hon. Byddai'n fuddiol pwysleisio'r pwynt hwn ar gyfer unrhyw ddysgu proffesiynol ynglŷn â'r trefniadau asesu hyn.

Cwestiwn 13 – Hoffem wybod beth yw eich barn ar yr effeithiau y byddai'r trefniadau asesu hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau?

Rydym yn croesawu'r ffaith y dylai asesu ystyried cymhwysedd disgyblion yn iaith eu haelwyd ac iaith y lleoliad. Dylai hyn roi syniad da o'u gallu ieithyddol cyffredinol. Bydd

hyn yn berthnasol i beth bynnag yw iaith y plentyn ar yr aelwyd, gan gynnwys y Gymraeg.

Nid ydym yn rhagweld y bydd y trefniadau asesu hyn yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried sut i gynorthwyo ymarferwyr sy'n datblygu eu medrau Cymraeg eu hunain i ddefnyddio fersiwn Gymraeg y ddogfen, er enghraifft gydag esboniadau o derminoleg benodol.

Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Ar gyfer ymarferwyr sy'n datblygu eu medrau Cymraeg, gallai fod yn ddefnyddiol darparu cymorth ychwanegol neu ddysgu proffesiynol ynglŷn â'r trefniadau asesu.

Cwestiwn 14 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y trefniadau asesu hyn er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Ar gyfer ymarferwyr sy'n datblygu eu medrau Cymraeg, gallai fod yn ddefnyddiol darparu cymorth ychwanegol neu ddysgu proffesiynol ynglŷn â'r trefniadau asesu.

Cwestiwn 15 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

